




Archwilio Plentyndod:

Pecyn ffoto am y CCUHP i blant a phobl ifanc 8 – 18 oed.

www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk



Archwilio Plentynod:

Pecyn ffoto am y CCUHP i blant a phobl ifanc 8 – 18 oed.

Cyflwyniad

Bydd y pecyn hwn yn helpu plant a phobl ifanc rhwng 8 ac 18 oed archwilio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP / UNCRC). Yng Nghymru mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio er mwyn sicrhau fod y CCUHP yn sail i'w holl bolisi ac ymarfer yng nghyd-destun plant a phobl ifanc. Caiff athrawon sy'n defnyddio'r pecyn hwn olwg unigryw ar lais a barn y plant a'r bobl ifanc y maen nhw'n eu dysgu – prwpas y pecyn hwn yw rhoi clust i lais y dysgwyr.

Rhestr o hawliau gwarchod yw CCUHP – rhaid i'r wladwriaeth warchod plant rhag pob math o gam-drin: rhywiol, gwaith, cosb, gwrthdaro arfog, cymryd rhan mewn rhyfel fel milwr bychan ynghyd â darparu cymorth dyngarol i blant sy'n ffoaduriaid. Rhaid i'r wladwriaeth hefyd addo adnoddau er mwyn sicrhau y bydd plant yn aeddfedu'n oedolion iach a hapus. Parodd hyn i drafodaeth ryngwladol ddechrau ynghylch hawliau plant. Mae'r pecyn hwn yn mynd â'r drafodaeth at blant a phobl ifanc er mwyn clywed eu barn hwy.

Rydym ni'n credu fod plant a phobl ifanc yn sylwebyddion abl ar eu bydoedd eu hunain a'r dehonglwyr gorau o'u profiadau eu hunain – mae'r pecyn hwn wedi'i gynllunio er mwyn eu helpu i fynegi eu barn.

Mae'r pecyn yn cynnwys 30 ffotograff a 5 poster, a set o weithgareddau er mwyn hybu hunan-ystyried, dehongli a meddwl annibynnol ymhlith plant a phobl ifanc.

Gellir defnyddio'r pecyn yn Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ond gellir ei ddefnyddio yn ogystal mewn ardaloedd eraill o'r cwricwlwm ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Yng Nghymru, bydd plant a phobl ifanc yn profi 'gwirioneddau' gwahanol i blant mewn rhannau eraill o'r byd. Oddi mewn i ffiniau Cymru, mae plentynod yn wahanol i blant yr ardaloedd trefol a phlant cefn gwlad, i blant a chanddynt fwy neu lai o arian, i blant o leiafrifoedd ethnig ac i blant sy'n byw gydag anabled. Rydym eisieu i blant a phobl ifanc ystyried beth yw ystyr CCUHP yng Nghymru a thu hwnt.

Bwriad pob un o'r gweithgareddau yw hybu trafodaeth ar werthoedd a hybu egwyddorion megis parch a chyfranogi. Rydym yn credu fod dysgu o'r natur hwn yn hanfodol os yw erthyglau'r CCUHP yn mynd i gael eu hymgorffori mewn arfer dda. Bydd hefyd o gymorth i oedolion dalu sylw i sut y bydd plant a phobl ifanc yn siarad amdanant eu hunain ac eraill sy'n rhannu gofod plentynod mewn byd sydd wedi profi globaleiddio.

Yn bennaf, cynlluniwyd y pecyn hwn i gwrdd â gofynion Erthygl 42 o'r CCUHP:

Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.

Mae Erthygl 12 hefyd yn bwysig iawn gan ei fod yn rhoi hawl penodol i blant a phobl ifanc gael llais:

Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

Y Gweithgareddau.

Yn Rhan 1 mae gweithgareddau'n cyflwyno'r ffotograffau ac yn sefydlu awyrgylch ddysgu gynhwysol. Mae gweithgareddau Rhan 2 yn canolbwyntio'n arbennig ar CCUHP er mwyn rhoi cyfle i blant gael dealltwriaeth dda o'r gwahanol erthyglau a'u hoblygiadau i blant.

Mae pob un o'r gweithgareddau a gynhwysir wedi'u cynllunio i hybu sgiliau meddwl fel a ganlyn:

Sgiliau Cyfnod Allweddol 2

- *gwrando'n astud, gofyn cwestiynau ac ymateb i bobl eraill*
- *mynegi eu safbwyntiau a'u syniadau yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol*
- *cyfrannu at drafodaethau dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon.*
- *ffurfio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus*
- *ac i ddeall:*
- *eu hawliau, e.e. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a'u cyfrifoldebau*

Sgiliau Cyfnod Allweddol 3

- *gwrando'n astud mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol*
- *cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol*
- *mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol*
- *ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol*
- *adnabod ac asesu tuedd a dibynadwyedd, e.e. gwerthuso negeseuon gan y cyfryngau*
- *ac i ddeall:*
- *eu hawliau, e.e. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Ymestyn Hawliau*
- *cael eu cyffwrdd gan anghyfiawnder, ecsbloetio, a gwrthod hawliau dynol*

Cynnwys.

Rhan Un

Dod i adnabod y lluniau, datblygu sgiliau

Gwneud cysylltiadau
P'un sy'n wahanol
Holi cwestiynau
Beth yw ystyr bod yn blentyn? (CA 3/4)
Mwyaf tebyg i blentyn / Lleiaf tebyg i blentyn
Fyddai'n well gen ti?
Cynhyrchu cwestiynau
Archwilio gwerthoedd a theimladau

Rhan 2

Archwilio CCUHP

Gêm y balŵn
CCUHP o ddydd i ddydd: archwilio'r Erthyglau
Archwilio erthyglau a delweddau yn drylwyr
Erthygl 31: Gwaith
Erthygl 32: Chwarae
Dadelfennu Ymgyrchoedd
Creu Arddangosfa

Rhestr o Dafienni Gweithgaredd ar gyfer eu Llungopio

Taflen Gweithgaredd A
Pa oed sydd angen i mi fod er mwyn...

Taflen Gweithgaredd B
Gweithgaredd Llyfr Nodiadau

Taflen Gweithgaredd C
Dadansoddi Ffotograffau

Taflen Gweithgaredd Ch
Holiadur Gwaith

Deunyddiau Cefnogi
CCUHP mewn iaith plentyn-ganolog —

Cymraeg a Saesneg
Geiriau teimladau
Geiriau holi.

Gwneud Cysylltiadau

Pwrpas.	Camau.
	<p>Cam 1</p> <p>Gofynnwch i'r plant edrych ar y ffotograffau sydd wedi'u gosod ar y llawr a dewis UN sy'n apelio atynt mewn rhyw fodd. Mae'n bwysig bod gan bob plentyn ei lun ei hun.</p>
	<p>Cam 2</p> <p>Gofynnwch i'r plant ddal eu dewis lun o'u blaenau fel y gall pawb ei weld. Gofynnwch am wirfoddolwr i wneud CYSYLLTIAD rhwng eu llun nhw a llun rhywun arall. Gan ddefnyddio'r belen o gordyn, dechreuwch adeiladu gwe o gysylltiadau ar draws y cylch. Y person cyntaf i wneud cysylltiad sy'n dal un pen i'r cordyn ac yn pasio'r belen ar draws y cylch at y person y maent wedi gwneud cysylltiad â'i lun ef / hi. Rhaid i'r person hwn yn ei dro wneud cysylltiad â ffotograff arall, gan basio'r cordyn ymlaen wrth wneud. Ewch ymlaen fel hyn nes i bob llun gael ei gysylltu gan y cordyn. Tynnwch sylw at y we o syniadau a gynhyrchwyd gan y plant, sy'n cael ei symboleiddio gan y cordyn. Ailweindiwch y cordyn.</p>
	<p>Cam 3</p> <p>Gweithio fesul pâr. Gofynnwch i bob pâr (neu grŵp o dri os oes angen) gymharu'r ffotograffau a ddewiswyd ganddynt. A allan nhw ddarganfod un peth sydd YR UN PETH ac un peth sy'n WAHANOL yn eu lluniau? Parau i ddangos eu lluniau ac adrodd yn ôl i'r grŵp.</p>
Pwrpas.	Cyflwyno'r casgliad o ffotograffau i'r plant a phobl ifanc. Eu hannog i wrando ar syniadau ei gilydd a gwneud cysylltiadau rhyngddynt.
Ystod Oedran	8 – 18
Amseru	15 – 20 munud yn dibynnu faint o blant sydd yn y dosbarth.
Adnoddau	Y casgliad cyfan o [ffotograffau] (rhifau 1 – 30) wedi'u hargraffu a'u lamineiddio.
Grwpio	Y dosbarth cyfan i eistedd mewn cylch a'r ffotograffau wedi'u gosod ar y llawr. Pelen fawr o gordyn.

Nodiadau cwricwrm

Mae'r gweithgaredd hwn yn cefnogi 'Fframwaith Sgiliau 3 – 19' (LICC 2008) trwy ddatblygu ystod o sgiliau meddwl a chyfathrebu.

http://wales.gov.uk/dcels/publications/curriculum_and_assessment/arevisedcurriculumforwales/skillsdevelopment/SKILLS_FRAMEWORK_2007_Welsh.pdf?lang=en

Enwebwyd fel 'gweithgaredd gorau' gan blant Bl 5 Ysgol Gynradd Glyncollen, Abertawe.

P'un sy'n wahanol

Pwrpas.		Camau.	
	Cael y plant a'r bobl ifanc yn gyfarwydd â chymharu a gwrthgyferbynnu'r ffotograffau gan edrych am bethau sy'n debyg ac yn wahanol rhyngddynt.	Cam 1	Gofynnwch i'r plant ddweud pa lun sy'n wahanol. Pwysleiswch nad oes atebion anghywir, ond y bydd angen iddynt roi rhesymau da i gefnogi eu syniadau. Ailadroddwch y dasg gyda 3 llun gwahanol.
Ystod Oedran	8 – 18		
Amseru	Yn ddibynnol ar sawl enghraifft a ddefnyddir - 5 munud ar gyfer pob 'P'un sy'n wahanol'.		
Adnoddau	Tri ffotograff wedi'u dewis o'r pecyn sydd wedi'i roi ynghanol y cylch. Cyfnod Allweddol 2: Argymhellir [ffotograffau 4, 5, 13] Cyfnod Allweddol 3: Argymhellir [ffotograffau 5, 22, 26] Cyfnod Allweddol 4: Argymhellir [ffotograffau 9, 13, 25]		
Grwpio	Y dosbarth cyfan yn eistedd mewn cylch.		

Cysylltiadau Cwricwlwm:

'Fframwaith Sgiliau 3 – 19', yn enwedig Sgiliau Meddwl a Chyfathrebu.

http://wales.gov.uk/dcells/publications/curriculum_and_assessment/arevisedcurriculumforwales/skillsdevelopment/SKILLS_FRAMEWORK_2007_Welsh.pdf?lang=en

Cymorth i athrawon:

Darganfu'r athro a fu'n treialu'r gweithgaredd hwn bod yr amrediad o resymau a gyflwynwyd gan y plant dros ddewis gwahanol luniau fel 'yr un gwahanol' yn rhoi cipolwg unigryw ar y ffordd y bydd plant yn dehongli'r byd.

Holi cwestiynau

Pwrpas.	Camau.
Ystod Oedran	
Amseru	
Adnoddau	
Grwpio	

Pwrpas.	Camau.
<p>Cael y plant a'r bobl ifanc yn gyfarwydd â holi cwestiynau am y ffotograffau. Eu helpu i weld bod rhai geiriau holi yn fwy buddiol nag eraill wrth gynnau trafodaeth am syniadau a chysyniadau.</p>	<p>Cam 1</p> <p>Rhannwch un llun ar hap i bob grŵp o dri. Rhowch dri o'r geiriau holi i bob grŵp (dylid argraffu'r rhain cyn eu rhoi iddynt). Gofynnwch i bob grŵp feddwl am o leiaf un cwestiwn ar gyfer eu ffotograff hwy gan ddefnyddio'r geiriau holi a roddwyd iddynt.</p>
<p>8 – 18</p>	<p>Cam 2</p> <p>Gofynnwch i bob grŵp ddangos eu llun a darllen eu cwestiwn ar lafar.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gofynnwch pa fath o gwestiwn ydyw? Caeedig? Agored? Meddylgar? Bydd gan gwestiwn caeedig un ateb cywir y gellir ei ateb drwy edrych ar y llun neu wneud ychydig o ymchwil. Mae cwestiwn agored yn tybio neu mae'n ddamcaniaethol ei natur, mae angen dychymyg i geisio'i ateb. Bydd cwestiynau felly yn datgelu rhagdybiaethau plant am y delweddau. Mae cwestiynau meddylgar yn gwahodd archwilio cysyniadau ac, yn arbennig felly wrth ddefnyddio 'ddylai', gysyniadau moesol. Mae'r rhain yn arbennig o bwysig wrth edrych ar blentynod yng nghyd-destun CCUHP. Pa eiriau holi sydd wedi arwain at y cwestiynau mwyaf diddorol? Trafodwch gyda'r plant.
<p>30 – 40munud</p>	<p>Cam 3</p> <p>Gofynnwch i bob grŵp geisio llunio cwestiwn 'ddylai' ar gyfer eu ffotograff hwy. Gofynnwch iddynt ei ddarllen ar lafar. Nodwch bod islais o gwestiwn moesol yn perthyn i bob ymholiad 'ddylai' - pwysleiswch bod CCUHP yn seiliedig ar syniadau moesol a moesegol.</p>
<p>Detholiad allan o'r pecyn ffotograffau. Tri set o eiriau holi, pob gair wedi'i argraffu ar wahân ac, os yw'n bosib, wedi'i lamineiddio:</p> <p>beth, ble, pryd, pam, sut, pwy, allai, ddylai, a ydy, fyddai, os [geiriau holi] i'w hargraffu.</p> <p>Lluniau a argymhellir ar gyfer Cyfnod Allweddol 2: 1, 3, 4, 11, 13, 18, 19, 20, 21, 26.</p> <p>Lluniau a argymhellir ar gyfer Cyfnod Allweddol 3: 2, 9, 12, 10, 16, 17, 22, 23, 25, 26.</p>	
<p>Y dosbarth cyfan yn eistedd mewn cylch gan weithio mewn grwpiau o dri.</p>	

Nodiadau i athrawon.

Mae geiriau fel ble, pryd, beth, pwy yn gwestiynau damcaniaethol – mae'n annhebygol y bydd modd i ni eu hateb oddi wrth y llun, ond gallwn ddefnyddio ein dychymyg i dybio. Gellir dod o hyd i atebion y cwestiynau hyn ar y [rhestr ffotograffau gyda nodiadau]. Mae'r cwestiynau sy'n deillio o eiriau holi megis ddylai, allai, pam yn debygol o gynhyrchu cwestiynau sy'n ymwneud a phynciau moesol gan gynnwys trafodaeth ar gysyniadau – dyma'r cwestiynau mwy 'blasus' fel arfer.

Beth mae'n ei olygu i fod yn blentyn? (CA3/4)

Pwrpas.

Er mwyn ystyried y CCUHP mae'n bwysig i blant a phobl ifanc dreulio rhyw gymaint o amser yn ystyried y cysyniad o blentyndod. Awgrymir yma rai gweithgareddau 'cynhesu' i helpu'r plant archwilio'u dealltwriaeth o'r term 'plentyn'.

Ystod Oedran

8 – 18

Amseru

Rhwng 40 a 60 munud.

Adnoddau

Darnau mawr o bapur a pheniau ffelt lliwgar tew ar gyfer pob grŵp o 4. Un nodyn 'Post-it' ar gyfer pob plentyn.

Grwpio

Unigolyn, pâr, grwpiau bychain, dosbarth cyfan.

Camau.

Cam 1

Trefnwch y plant mewn i grwpiau o 4 - 5 a rhowch ddarn mawr o bapur a'r pheniau ffelt i bob grŵp. Gofynnwch iddynt drafod a chreu darluniau, geiriau neu fap meddwl yn ymateb i'r cwestiwn:

Beth mae'n ei olygu i fod yn blentyn heddiw?

Gofynnwch i'r plant arddangos eu gwaith er mwyn i bawb ei weld.

Cam 2

Wedi i'r grwpiau gael cyfle i weld gwaith ei gilydd, holwch:

Pa bethau sy'n debyg ac yn annhebyg yn eich syniadau?

Rhowch amser iddynt drafod hyn yn y grwpiau.

Cam 3

Rhowch nodyn 'Post-it' i bob plentyn a gofynnwch iddynt orffen y frawddeg:

Rydych yn stopio bod yn blentyn pan...

Dangoswch yr holl nodiadau 'Post-it' gyda'i gilydd a darllenwch y cyfan ar lafar.

• Sylwer: Efallai yr hoffai plant gofnodi hyn yn eu llyfr nodiadau personol yn ogystal.

Beth mae'n ei olygu i fod yn blentyn? (CA3/4)

Camau. (parhad)

Cam 4

Er mwyn rhoi gwybodaeth i'r plant am y syniadau gwahanol sydd gan wledydd gwahanol am ddiwedd plentyndod, gofynnwch i blant ddyfalu pryd y bydd gan blant a phobl ifanc hawl i wneud y canlynol:

Dyfalwch pryd y mae hawl gan rywun...	Atebion
• <i>Priodi</i>	<i>Prydain (gyda chaniatâd rhieni)</i> 16 <i>India</i> 21 <i>Sbaen</i> 18
• <i>Fod yn gyfrifol am weithred droseddol</i>	<i>Cymru a Lloegr</i> 10 <i>Yr Alban</i> 8 <i>UDA</i> 6 <i>Sbaen</i> 16
• <i>Gadael ysgol</i>	16 (ar fin cael ei godi i 18)
• <i>Roi caniatâd i gael llawdriniaeth</i>	Nid oes oedran penodedig yn y DU – gall plentyn roi caniatâd i gael llawdriniaeth waeth beth fo ei oedran os pennir ei fod yn abl i benderfynu. Pe byddai gwrthod yn eu peryglu neu'n peryglu eu bywydau, gallai'r llysoedd gael hawl i benderfynu.
• <i>Gweithio</i>	13 (yn rhan-amser)
• <i>Cytuno i gael rhyw</i>	<i>Prydain</i> 16 <i>India</i> 18 <i>Brasil</i> 14
• <i>Cael mynediad i ddulliau atal cenhedlu</i>	Nid oes oedran penodedig yn y DU, gellir rhoi dull atal cenhedlu i blant os oes angen amlwg a bod y plentyn yn deall beth sy'n digwydd.
• <i>Pleidleisio</i>	18

Camau. (parhad)

Cam 5

Gweithgaredd llyfr nodiadau

Cwestiynau y gall y plant a phobl ifanc ei ystyried yn eu llyfr nodiadau personol:

Pam y bydd gwledydd gwahanol yn Ewrop yn ystyried eich bod yn gyfrifol am weithred droseddol ar oeddrannau gwahanol?

Beth yn eich barn chi ddylai'r oedran fod?

Beth yn eich barn chi ddylai'r oedran fod ar gyfer yr holl bethau uchod? Pam?

Ar ôl iddynt gael amser i bendroni ar eu pennau'u hunain, anogwch y plant i rannu syniadau fesul pâr ac yna mewn grwpiau bychain.

Adborth: gofynnwch i grwpiau gyflwyno'u syniadau ar gyfer trafod.

Beth mae'n ei olygu i fod yn blentyn? (CA3/4)

Camau. (parhad)

Cam 6

Llinellau Cytuno / Anghytuno. Dyma ffordd dda iawn i blant archwilio eu syniadau personol a gweld na fydd pawb o reidrwydd yn cytuno. Er mwyn gweithredu gweithgareddau Cytuno / Anghytuno bydd angen rhaff neu rywbeth arall ar y llawr. Darllenwch y datganiad isod a gofynnwch i'r plant sefyll ar naill ochr y llinell os ydyn nhw'n cytuno neu'r ochr arall os ydyn nhw'n anghytuno. Os nad ydyn nhw'n sicr, gallant sefyll ar y llinell:

Oedran yw'r ffactor bwysicaf wrth ystyried y gwahaniaeth rhwng plant ac oedolion.

Gofynnwch i'r plant drafod mewn grwpiau bychain pam y maen nhw'n sefyll yn y fan y maen nhw, ac yna gofynnwch iddynt gyfiawnhau eu safiad. Anogwch y plant i wrando ar ei gilydd a bod yn barod i newid eu meddwl.

Cwestiwn: Pwy ddylai benderfynu pryd y dylem gael hawl i wneud pethau?

Camau. (parhad)

Cam 7

Crynhoi. Gwnewch yn siŵr fod y plant yn deall y cysyniad fod yr hyn sy'n gwneud plentyn yn blentyn yn wahanol mewn gwahanol leoedd, diwylliannau a chyfnodau. Os oes gennym GCUHP sy'n ryngwladol, h.y. mae'n berthnasol i bob plentyn ledled y byd bob amser, yna mae'n bwysig bod gennym gytundeb ar ystyr bod yn blentyn a sut mae gwahaniaethu rhwng bod yn blentyn a bod yn oedolyn. Nid yw hyn yn hawdd nag yn uniongyrchol a rhaid cynnwys plant yn y drafodaeth. Mae gan blant safbwynt ac ni ddylai'r penderfyniad gael ei adael yn llwyr i oedolion.

Mwyaf tebyg i blentyn / Lleiaf tebyg i blentyn

Pwrpas.	Archwilio syniadau plant a phobl ifanc o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn blentyn gan ddefnyddio'r [pecyn ffotograffau].	Camau.	Plant yn gweithio mewn paruau er mwyn ystyried y cwestiynau canlynol er mwyn cynhesu ar gyfer y prif weithgaredd:	
Ystod Oedran	8 – 18	Cam 1	<p>Cwestiwn 1 Faint yw dy oed di?</p> <p>Cwestiwn 2 Faint fydd dy oed pan fyddi di'n oedolyn?</p> <p>Cwestiwn 3 Beth mae'n ei olygu i fod yn oedolyn?</p>	<p><i>Mae Cwestiwn 1 yn gwestiwn caeedig ag iddo un ateb cywir.</i></p> <p><i>Mae gan Gwestiwn 2 ateb cyfreithiol ond mae'n agored i atebion gwahanol (cwestiwn agored);</i></p> <p><i>Mae Cwestiwn 3 yn gwestiwn athronyddol – bydd yn golygu rhywbeth gwahanol i bobl wahanol – mae'n gysyniad sy'n anodd ei gaethiwo. Mae'n llesol i blant ystyried fod yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn oedolyn yn amrywio o berson i berson.</i></p>
Amseru	20 – 30 munud. Mae'n dibynnu pa mor hir fyddwch chi'n ei dreulio ar yr adborth yng Ngham 1.		Gofynnwch i'r plant adrodd yn ôl ar eu hatebion i Gwestiynau 2 a 3 er mwyn gweld yr amrywiaeth barn.	
Adnoddau	Dangoswch ddigon o luniau o'r [pecyn ffotograffau] er mwyn galluogi plant i weithio mewn paruau.			
	Awgrymir: 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 16, 21, 22, 23, 24, 25 (25 ar gyfer CA 3 yn unig), 26.			
Grwpio	Dosbarth cyfan.	Cam 2	Dangoswch ddigon o ffotograffau fel bod modd i'r plant weithio fesul pâr.	
		Cam 2a	Rhowch lun ar hap i bob pâr.	<p>Nodiadau athrawon</p> <p><i>Bydd y gweithgaredd hwn yn datgelu llawer o'r tybiaethau sydd gan y plant a phobl ifanc am ystyr plentyndod iddyn nhw. Ystyriwch pa oblygiadau sy'n ganlyniad o'r tybio hwn – cymerwch eich amser i fyfrio dros eich hymateb i'r syniadau; ydyn nhw'n rhoi syrpreis i chi?</i></p>
		Cam 3	Pan fyddan nhw wedi cytuno ar drefn, gofynnwch iddynt sefyll mewn rhes a dangos eu lluniau er mwyn cyfiawnhau eu dewisiadau. Pwysleiswch nad oes atebion cywir ac anghywir, ond bydd angen iddynt allu rhoi rheswm dros ateb fel y gwnânt.	

Fyddai'n well gen ti?

Pwrpas.	Camau.
<p>Helpu'r plant a phobl ifanc hel meddyliau am ystyr bod yn blentyn mewn byd sydd wedi'i lobaleiddio.</p>	<p>Cam 1 Gofynnwch i'r plant: 'gyda phwy y byddai'n well gennych chi dreulio diwrnod?' Gofynnwch i'r plant fynd i sefyll ger eu dewis lun.</p>
<p>Ystod Oedran 7 – 18</p>	<p>Cam 2 Gofynnwch i'r plant drafod gyda'r plant eraill a ddewisodd yr un llun â hwy pam y bu iddynt ddewis fel y gwnaethant.</p>
<p>Amseru Tua 15 munud yn dibynnu faint o blant sydd yn y dosbarth.</p>	<p>Cam 3 Gofynnwch i bob grŵp esbonio'u dewis i weddill y dosbarth.</p>
<p>Adnoddau Dewiswch bum ffotograff o'r pecyn s'yn dangos plant mewn amgylchiadau gwahanol. Argraffwch a lamineiddiwch y lluniau. Gosodwch hwy mewn lleoliadau gwahanol o gwmpas yr ystafell.</p> <p>Cyfnod Allweddol 2: awgrymir [Ffotograffau: 1, 3, 8, 10, 18]</p> <p>Cyfnod Allweddol 3: awgrymir [Ffotograffau: 6, 7, 9, 15, 16]</p>	
<p>Grwpio Dosbarth cyfan</p>	

Nodiadau athrawon

Efallai y bydd rhai dewisiadau o blaid y llun a rhai oherwydd nad oedden nhw eisiau dewis yr un o'r lluniau eraill. Ceiswch adnabod y math o reswm a roddodd y plant dros wneud eu dewis – cadarnhaol a negyddol – a gwnewch restr ar y bwrdd wrth iddyn nhw adrodd eu barn.

Gweithgaredd llyfr nodiadau

Efallai yr hoffai'r plant a phobl ifanc dreulio ychydig o amser yn meddwl am y llun a ddewiswyd ganddynt yn eu llyfr nodiadau personol.

Cynhyrchu Cwestiynau

Pwrpas.

Cael plant a phobl ifanc i gynhyrchu eu cwestiynau eu hunain am lun penodol.

Ystod Oedran

8 – 18

Amseru

1 – 5 = 60 munud
7 – 9 = 60 munud

Adnoddau

Y [pecyn ffotograffau]. Darnau mawr o bapur siwgr a pheniau ffelt tew.

Grwpio

Grwpiau o 4

Camau.

Cam 1

Dangoswch yr holl luniau yn y pecyn. Gofynnwch i'r plant edrych arnynt a gwneud nodyn o UN llun yr hoffent ofyn rhagor o gwestiynau yn ei gylch.

Cam 2

Edrychwch i weld a oes unrhyw blant wedi dewis yr un llun a rhowch y plant hynny gyda'i gilydd. Parwch y plant eraill gan ofyn iddynt drafod eu dewis o lun a dweud pam yr hoffent gynhyrchu rhagor o gwestiynau am y llun. Gofynnwch iddynt ddewis UN llun rhyngddynt. (Gallent gytuno ar lun gwahanol pe dewisent).

Cam 3

Cyfunwch y parau i wneud grwpiau o bedwar. Gofynnwch iddynt drafod eu dewis luniau a dewis UN llun yr hoffent dreulio amser yn ei drafod.

Cam 4

Caniatewch i bob grŵp gasglu'i lun (byddwch yn barod rhag ofn bod rhai grwpiau wedi dewis yr un llun, felly bydd angen mwy nag un copi arnoch). Dylent ysgrifennu teitl ar gyfer y llun ynghanol y darn papur. Gofynnwch iddynt feddwl am gynifer o gwestiynau ag y gallant o gwmpas y llun.

Cynhyrchu Cwestiynau

Camau. (parhad)

Cam 5	<p>Dosbarthu'r cwestiynau. Pasiwch y lluniau a'r cwestiynau i'r grŵp nesaf yng nghyfeiriad y cloc. Gofynnwch i'r grŵp newydd edrych ar y llun a'r cwestiynau a gynhyrchwyd gan ddosbarthu'r cwestiynau. Ydyn nhw'n:</p> <p>1) Cwestiynau caeedig - ag un ateb cywir y gellir ei ymchwilio, e.e. Ble tynnwyd y llun? Beth mae'r plant yn ei wneud?</p> <p>2) Cwestiynau agored a allai gael ystod o atebion e.e. Sut mae e'n teimlo? Ydy hi'n hapus?</p> <p>3) Cwestiynau meddylgar - cwestiynau sy'n ymwneud â chysyniadau (e.e. cyfiawnder), e.e. Ydy hi'n deg fod... yn...? Ydyn nhw'n hapus â'u bywydau? Os yw'r cwestiynau yn gaeedig gofynnwch iddyn nhw roi tic; os ydyn nhw'n gwestiynau agored, rhoi wyneb hapus gyda marc cwestiwn uwch ei ben.</p>
Cam 6	<p>Trafodwch y cwestiynau. Gofynnwch i'r plant adrodd yn ôl ar y cwestiynau meddylgar (gan dybio bod ganddynt rai). Beth sy'n gwneud y rhain yn gwestiynau meddylgar?</p>
Cam 7	<p>Cylchoedd o fewn cylchoedd. I brofi ansawdd 'cwestiynau meddylgar' y plant, gofynnwch iddynt ffurfio dau gylch, un mewnol ac un allanol.</p>

Camau. (parhad)

Cam 5	<p>Gofynnwch i'r cylch mewnol droi i wynebu plentyn yn y cylch allanol (os nad yw rhifau'n gymesur efallai y bydd angen gwneud un grŵp o dri, neu gallwch chi ymuno). Gan gymryd pob 'cwestiwn meddylgar' yn ei dro, a chan wneud yn siŵr fod gan y plant fodd o weld y llun sy'n berthnasol i bob cwestiwn, (gellir eu dangos ar y bwrdd gwyn, cliciwch YMA i gael mynediad i'r lluniau mewn cyflwyniad Powerpoint), darllenwch y cwestiynau ar lafar a rhowch 2 funud i'r plant geisio ateb y cwestiwn. Ar ôl 2 funud, gwaeddwch 'STOP!' a gofynnwch i'r cylch mewnol a'r cylch allanol symud ymlaen un cam i'r chwith. Bydd gan bob plentyn bartner newydd. Darllenwch y 'cwestiwn meddylgar' nesaf a rhowch 2 funud arall iddynt drafod. Ailadroddwch hyd nes y bydd o leiaf UN 'cwestiwn meddylgar' o bob grŵp wedi cael ei drafod.</p>
Cam 8	<p>Gofynnwch i'r plant pa un o'r 'cwestiynau meddylgar' hyn oedd wedi darparu'r drafodaeth fwyaf diddorol. Ysgrifennwch bob un o'r cwestiynau ar ddam o bapur A4 a'u rhoi lle y gall pawb eu gweld. Darllenwch bob cwestiwn yn eu tro unwaith. Yna esboniwch wrth y plant eu bod yn mynd i bleidleisio dros UN cwestiwn. Dylai hon fod yn bleidlais gudd. Gofynnwch iddynt gau eu llygaid, a darllenwch bob cwestiwn ar lafar gan ofyn am bleidlais. Pan fyddwch chi'n gweld pa gwestiwn yw'r mwyaf diddorol, gofynnwch i'r plant beth am y cwestiwn hwn a'i gwnaeth yn fwyaf diddorol.</p>

Cynhyrchu Cwestiynau

Camau. (parhad)

Cam 9

Gall plant ffurfio Cymuned Ymholi a thrafod y cwestiwn hwn fel dosbarth. Bydd cymuned ymholi yn digwydd mewn cylch fel y gall pob plentyn weld pawb arall. Y grŵp y cafodd ei gwestiwn ei ddewis yn orau gaiff arwain yr ymholiad. Dylai'r athro weithredu fel galluogwr, ond ni ddylai rannu barn.

SYLWER: Mae hwn yn weithgaredd ardderchog ar gyfer Athroniaeth i Blant.

Gweithgaredd Llyfr Nodiadau

Efallai yr hoffai'r plant ryw gymaint o amser i ystyried y cwestiwn y bu iddynt ei fwynhau ei drafod orau, a phaham yr oedd hyn. Defnyddiwch y frawddeg gychwynnol hon:

Yn ein dosbarth heddiw, bu i ni dreulio amser yn trafod 'cwestiynau meddylgar'.

Y cwestiwn yr hoffais ei drafod orau oedd...

Roeddwn i'n hoffi'r cwestiwn oherwydd...

Archwilio Gwerthoedd ac Emosiwn

Pwrpas.	Camau.
Mae plant yn mwynhau trafod teimladau ac emosiynau, eu rhai nhw eu hunain a rhai pobl eraill. Wrth ofyn iddyn nhw glustnodi teimlad neu emosiwn neu werth i ffotograff rhaid iddynt ddefnyddio eu dychymyg naratif.	<p>Cam 1</p> <p>Rhowch y geiriau gwerthoedd mewn blwch a gofynnwch i bob plentyn ddewis gair yn ei dro.</p>
Ystod Oedran	<p>Cam 2</p> <p>Pan fydd gan bawb air, gofynnwch iddynt edrych ar y lluniau a pharu'r gair sydd ganddynt ag un llun (neu os ydynt yn gweithio mewn paru, dylent gytuno gyda'i gilydd ar lun).</p> <p><i>Sylwer: dywedwch wrthynt y bydd angen iddynt gyfiawnhau eu dewis wrth rywun arall.</i></p>
Amseru	<p>Cam 3</p> <p>Gofynnwch i'r plant fynd i res, heb siarad, yn nhrefn eu pen-blwydd - dyddiad a mis.</p>
Adnoddau	<p>Cam 4</p> <p>Unwaith y byddant wedi cwblhau'r dasg gofynnwch iddynt wneud pâr gyda'r person wrth eu hochr a mynd i edrych ar eu dewis lun ac esbonio pam y bu iddynt ddewis y llun hwnnw ar gyfer eu gair.</p> <p>A ddefnyddiwyd yr un llun ar gyfer dau air gwahanol? Os felly gofynnwch i'r plant drafod y rheswm dros hyn.</p>
Grwpio	<p>Cam 5</p> <p>Adborth. Gofynnwch i rai o'r plant esbonio dewis eu partner i'r grŵp.</p> <p>Cam 6</p> <p>Crynhoi. Sut y gall geiriau 'bennu' ystyr llun? Pam ydyn ni'n anghytuno ynghylch pa eiriau sy'n cyd-fynd â pha lun? A oes modd i ni ystyried llun ag iddo werth negyddol a dweud beth fyddai angen ei wneud i'w droi'n gadarnhaol?</p>

Cyngor i'r athro

CA2: efallai na fyddwch eisiau defnyddio pob gair gyda phlant iau. Awgrym y dylech ddewis y geiriau y byddant yn eu deall orau a gofyn i'r plant weithio mewn pâr i roi'r geiriau ar y ffotograffau.

Nodiadau i Athrawon

Mae gan blant a phobl ifanc ddiddordeb mewn teimladau – nid eu rhai nhw eu hunain yn unig, ond rhai pobl eraill hefyd. Mae emosiwn yn bwnc o ddiddordeb canolog i bob plentyn ac mae trafod teimladau ac emosiynau yn rhan bwysig o ddatblygu deallusrwydd emosiynol – a adwaenir bellach fel ffactor allweddol er mwyn llwyddo mewn bywyd. Er mwyn trafod teimladau, rhaid i ni archwilio gwerthoedd a'r eirfa a gysylltir â gwerthoedd. Mae sawl ysgol wrthi'n datblygu'n 'ysgol ar-sail-gwerthoedd' lle bydd holl gymuned yr ysgol yn archwilio'r gwerthoedd y maent hwy wedi'u hadnabod fel rhai pwysig. Pwrpas y gweithgaredd nesaf yw ymestyn dealltwriaeth plant o werthoedd trwy archwilio ystyron geiriau sy'n ymwneud â gwerthoedd yng nghyd-destun y ffotograffau.

Archwilio CCUHP:

Gweithgaredd y balŵn

Pwrpas.		Camau.	
	Galluogi'r plant i ddod yn gyfarwydd â rhai o Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a dechrau archwilio eu harwyddocâd i blant a phobl ifanc.	Cam 1	Esboniwch mai cytundeb rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n datgan pa hawliau ddylai fod gan blant ledled y byd. Bydd y gweithgaredd hwn yn eu helpu i ddod yn fwy cyfarwydd â CCUHP, ac ystyried pa rai o blith yr Erthyglau sydd fwyaf pwysig yn eu barn hwy.
Ystod Oedran	8 – 18	Cam 2	Rhannwch yr Erthyglau, wedi'u torri fesul un, yn gyfartal rhwng y grwpiau. Gofynnwch i'r grwpiau rannu'r Erthyglau sydd ganddynt, trwy ddarllen ar lafar yr hyn sydd ar eu cardiau.
Amseru	30 – 40munud	Cam 3	Rhowch daflen A3 ag arno falŵn i bob grŵp. Esboniwch fod y balŵn yn gollwng aer, felly bydd yn rhaid iddynt ddewis pa Erthyglau i'w cadw. Bydd yn rhaid i'r gweddill gael eu 'taflu dros yr ochr'.
Adnoddau	Set o gardiau ag armynt 42 Erthygl CCUHP - un Erthygl ar bob cerdyn mewn iaith plentyn-ganolog (gweler adran Adnoddau ar ddiwedd y pecyn). Templedi cynllunio-balŵn - maint A3 (gweler adran Adnoddau ar ddiwedd y pecyn).	Cam 4	Rhowch 5 - 10 munud i'r grwpiau drafod, a chytuno fel grŵp, pa erthygl sydd fwyaf pwysig.
Grwpio	Plant yn cydweithio mewn grwpiau o 4.	Cam 5	Dylai pob grŵp rannu'r erthygl a ddewiswyd ganddynt fel yr un pwysicaf, gan ddweud pam mai dyna'r penderfyniad a wnaed ganddynt.

Archwilio CCUHP:

Gweithgaredd y balŵn

Camau. (parhad)

Cam 6

Rhaid dyfalu bod y dosbarth cyfan yn y balŵn, ac mae'n dal i ollwng awyr. Pe bai modd iddynt gadw ond un Erthygl, pa un fyddai? Pam? Gofynnwch i'r plant, yn eu grwpiau, drafod a phenderfynu pa un a ddylai fod. Dylai llefarydd ar ran pob grŵp ddweud pa un a ddewiswyd a phaham.

Cam 7

Gofynnwch i'r plant bleidleisio dros yr Erthyglau y byddent am eu cadw. Darllenwch bob un a ddewiswyd gan y grwpiau a phleidleiswch.

Gweithgaredd Llyfr Nodiadau:

Efallai yr hoffai'r plant feddwl am yr Erthygl sydd bwysicaf iddynt hwy.

CCUHP o ddydd i ddydd:

archwilio'r Erthyglau

Pwrpas.

Cyflwyno'r casgliad o luniau i'r plant a phobl ifanc a chychwyn ar y broses o ystyried beth yw ystyr CCUHP o ddydd i ddydd.

Sylwer: Mae'n debygol y byddai'r dasg hon yn gweithio'n well pe byddai'r plant eisoes wedi gorffen gweithgaredd sy'n eu cyflwyno i 42 Erthygl CCUHP. Argymhellir [Byd gwell i bob plentyn] ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a naill ai [Y Prezi] neu [Geiriau cywir, trefn anghywir] ar gyfer CA 3/4.

Ystod Oedran

8 – 18

Amseru

30 – 40 munud

Adnoddau

Y casgliad cyflawn o [ffotograffau] wedi'u harddangos o gwmpas yr ystafell.

Sylwer: efallai y dymunai athrawon CA2 hepgor Llun 26. Efallai y dymunai athrawon BI 5/6 a CA 3 gynnwys yr holl bosteri yn y gweithgaredd hwn yn ogystal.

Fersiwn plentyn-ganolog o ddetholiad o [Erthyglau CCUHP] digon ar gyfer un rhwng dau. Gwnewch ddwy set. Argymhellir yr Erthyglau canlynol ar gyfer y gweithgaredd: 6, 12, 13, 17, 23, 24, 27, 28, 30, 31, 32, 33, 34, 36, 38. Cynlluniwyd ar sail dosbarth o 30, gostyngwch neu cynyddwch nifer y cardiau yn unol â' ch dosbarth.

Grwpio

parau, grwpiau o 4, dosbarth cyfan.

Camau.

Cam 1

Rhannwch Erthyglau CCUHP ar hap. Gofynnwch i ddisgyblion ddod o hyd i'w partner - y plentyn â'r un Erthygl â nhw.

Cam 2

Unwaith y bydd pawb wedi canfod ei bartner dylent edrych ar y ffotograffau gyda'i gilydd a dewis un y maent yn gytûn y gellir ei gysylltu â'u Herthygl. Dywedwch wrth y plant ei bod hi'n bosib fod y llun yn darparu tystiolaeth fod yr Erthygl yn cael ei chyflawni neu beidio. Nhw, y plant, sydd i ddechonglir llun fel y mynnant. Pwysleiswch nad oes atebion cywir ac anghywir.

Cam 3

Unwaith y byddan nhw wedi darganfod eu llun, dylent sefyll gerllaw iddo a thrafod pam y bu iddynt ei ddewis. Os dewiswyd yr un llun gan eraill, gallant rannu syniadau gyda'i gilydd. Pwysleiswch y gallai fod mwy nag un Erthygl yn ambell lun a dim yn rhai o'r lleill.

CCUHP o ddydd i ddydd:

archwilio'r Erthyglau

Camau. (parhad)

Cam 4

Unwch dau bâr i wneud cynifer o grwpiau o 4 â phosib. Gofynnwch iddynt gymryd eu tro i esbonio'u Herthygl a'u dewis o lun i'w gilydd.

Cam 5

Crynhoi. Cymerwch bob Erthygl yn ei dro a gofynnwch i bob pâr ddangos eu llun a darllen eu Herthygl ar lafar.

Pan fydd pob Erthygl wedi'i darllen gofynnwch am un pâr o wirfoddolwyr i fod yn y 'gadair goch'. Gofynnwch i'r grwpiau eraill feddwl am gwestiynau i'w gofyn i'r pâr yn y 'gadair goch' er mwyn darganfod eu rhesymau dros baru'r Erthygl â'r llun. Rhowch gynifer o barau yn y 'gadair goch' ag a ganiateir gan amser.

Archwilio Erthyglau a delweddau CCUHP yn drylwyr

Pwrpas.		Pwrpas. (parhad)		
	<p>Rhoi cyfle i blant archwilio rhai o Erthyglau allweddol CCUHP yn ddyfnach wrth gymharu a gwrthyferbynnu profiadau gwahanol plant o rannau gwahanol o'r byd.</p>	Adnoddau	<p>Detholiadau o Erthyglau [CCUHP] - gweler isod:</p>	
Ystod Oedran	<p>10 – 18</p> <p><i>CA2: Efallai na fydd athrawon eisiau defnyddio pob poster ar gyfer grŵp 5. Mae'n bwysig fod plant yn deall beth a ddengys llun 25, sef ymarfer cyrch awyr mewn ardal ryfel.</i></p>		<p>Grŵp 1: Chwarae [ffotograffau: 1, 3, 4, 5, 6, 7]</p> <p>Erthygl 31: Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.</p> <p>Grŵp 2: Gwaith [ffotograffau: 11, 12, 13, 14, 15, 26]</p> <p>Erthygl 32: Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.</p> <p>Grŵp 3: Rhyfel [ffotograffau 9 and 25]</p> <p>Erthygl 38: Ni ddylai llywodraethau adael i blant dan bymtheg oed ymuno â'r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.</p>	<p>Grŵp 4: Cyfranogi [ffotograffau: 19, 23, 24.]</p> <p>Erthygl 12: Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.</p> <p>Grŵp 5: Lluniau gwybodaeth: y (pum poster) a gynhwysir yn y pecyn. Gellir naill ai argraffu'r rhain neu eu harddangos ar sgrin cyfrifiadur er mwyn i'r disgyblion eu gweld.</p> <p>Erthygl 17: Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.</p>
Amseru	40 – 50 munud			
Grwpio	Plant i gydweithio mewn grwpiau o 4.			

Archwilio Erthyglau a delweddau CCUHP yn drylwyr

Camau.	Camau. (parhad)
<p>Cam 1</p> <p>Gosodwch y plant mewn grwpiau o 4 - 6 (hyd at 5 grŵp). Awgrymir rhoi rhif i blant ar hap hy. rhifor plant o 1 - 5 ac yna gofyn i bob 1 eistedd gyda'i gilydd, pob 2, pob 3 ac ati.</p>	<p>Cam 4</p> <p>Dylai fod gan bob grŵp UN person a helpodd greu'r POSTER ar eu bwrdd. Gofynnwch i'r person hwn esbonio'r POSTER i weddill y grŵp. Caniatewch 5 munud. Gall y grŵp newydd ychwanegu eu geiriau, cysylltiadau neu ddarluniau i'r poster.</p>
<p>Cam 2</p> <p>Rhowch set o luniau i bob grŵp. Dylai fod ganddynt ddalen fawr o bapur (A1). Glynwch yr Erthygl sydd o dan ystyriaeth ganddynt i ganol y papur gyda Blu-tac. Rhowch y ffotograffau y maent yn edrych arnynt ar hyd ymylon y papur mawr.</p> <p><i>Sylwer : Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ysgrifennu rhif y grŵp ar frig y papur e.e. Grŵp 1. Gofynnwch i bob grŵp ystyried Ffyrd y mae Erthygl (rhowch rif) yn cael ei dorri a Ffyrd y mae Erthygl (rhowch rif) yn cael eu dilyn. Dylent greu poster i lunio cysylltiadau rhwng y ffotograffau a'r Erthygl CCUHP gan ddefnyddio geiriau, darluniau a llinellau i esbonio'u barn.</i></p>	<p>Cam 5</p> <p>Dyma'r rhan gymhleth!</p> <p>Gofynnwch i'r grwpiau newydd aros ynghyd a symud un bwrdd ymlaen i gyfeiriad y cloc. Pan gyrhaeddant y bwrdd nesaf, gofynnwch i'r person a fu'n rhan o grŵp gwreiddiol y bwrdd hwnnw esbonio'r POSTER. Unwaith eto, gall y grŵp newydd ychwanegu eu geiriau, cysylltiadau neu ddarluniau i'r poster.</p> <p>Ailadroddwch hyd nes y bydd pob grŵp wedi gweld pob POSTER.</p>
<p>Cam 3</p> <p>Lluniwch grwpiau newydd. Ceisiwch sicrhau fod gan bob grŵp newydd un aelod o bob grŵp blaenorol ynddo. Gallwch wneud hyn trwy ofyn i bawb ymhob grŵp rifo'u hunain o 1 - 5. Yna gofynnwch i bob 1 ffurfio grŵp newydd. Pob 2 i ffurfio grŵp newydd arall ac yn y blaen. Gofynnwch i'r grŵp newydd o 1au i eistedd o gwmpas POSTER Grŵp 1, y grŵp o 2au wrth boster Grŵp 2 ac ati. Os oes gennych 30 o blant, dyrannwch un plentyn ychwanegol i bob bwrdd.</p>	

Erthygl 32, Gwaith

Pwrpas.

Archwilio'r cysyniad o blant a phobl ifanc yn gweithio drwy ystyried Erthygl 32 CCUHP.

Ystod Oedran

10 – 18

Amseru

40 – 50 munud

Adnoddau

[Ffotograffau] Gwaith: 8, 9, 11, 12, 13, 14, 15, 26, 27 [Taflen Gweithgaredd B] yr un i bob pâr, a phen ysgrifennu.

Grwpio

Plant yn gweithio'n mewn paru ac fel dosbarth cyfan.

Camau.

Arddangoswch y lluniau er mwyn i'r plant allu eu gweld.

Cam 1

Tafluniwch Erthygl 32 ar y bwrdd gwyn.

Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.

Cam 2

Gofynnwch i'r plant edrych ar y lluniau yn eu paru. Gan ddefnyddio **Taflen Gweithgaredd C** dylent ystyried pob llun yn ei dro a thicio'r blychau sydd, yn eu barn hwy, yn gweddu i'r datganiadau.

Rhestr ffotograffau	Drwg i iechyd plant	Drwg i addysg plant	Nid yw'r gwaith hwn yn ddiogel	Nid yw plant yn cael eu talu am y gwaith hwn	Mae plant yn cael eu talu'n deg am y gwaith hwn
8.					
9.					
11.					
12.					
13.					
14.					
15.					
25.					

Sylwer: Os yw plant yn cadw llyfr nodiadau personol, rhowch amser iddynt fyfrio ar y cwestiynau isod, a gynhwysir ar Daflen Gweithgaredd C

Rhywbeth wnaeth beri i mi synnu yn y lluniau oedd...

Rhywbeth oedd yn ddiddorol i mi yn y lluniau oedd...

Rhywbeth yr hoffwn ddarganfod mwy amdano yw...

Erthygl 32, Gwaith

Camau. (parhad)

Cam 3

Gweithgaredd Llyfr nodiadau

Myfyrio personol. Gofynnwch i bob plentyn dreulio 2 funud yn myfyrio ar ystyr gwaith iddyn nhw. Gallant gadw'r atebion i'r cwestiynau hyn yn eu llyfrau nodiadau personol. Gofynnwch iddynt ystyried y cwestiynau canlynol (gweler Taflen Gweithgaredd Ch).

Taflen Gweithgaredd Ch: Holiadur Gwaith

- Wyt ti'n gweithio? Ydw/Nac ydw
Os wyt ti, ateba'r cwestiwn nesaf.
Os nac wyt ti, symuda'n syth at gwestiwn 2
- 1a. Pa fath o waith wyt ti'n ei wneud?
1b. Faint o oriau bob wythnos wyt ti'n gweithio?
1c. Wyt ti'n cael dy dalu am dy waith?
1ch. Os wyt ti'n cael dy dalu, wyt ti'n cael cadw'r arian a enillaist ti?
os na,
2. A hoffet ti weithio? Hoffwn/Na hoffwn
2a. A fyddet ti'n disgwyl cael dy dalu am weithio, a chael
cadw'r arian i ti dy hun? Byddwn / Na fyddwn
3. Pam wyt ti'n meddwl fod plant a phobl ifanc yr un oed â thi yn gweithio? Ceisia feddwl am fwy nag un rheswm.
4. Pa fanteision ac anafanteision sydd yna i blant a phobl ifanc weithio yn ein cymdeithas?
5. Pe gallet ti ddewis pa fath o waith yr hoffet ti ei wneud – beth fyddai?
6. Sut wyt ti / fyddet ti'n gwario'r arian a enillwyd o weithio?

Camau. (parhad)

Cam 4

Gofynnwch i'r plant ffurfio llinell Cytuno / Anghytuno. Dyma ffordd ardderchog i blant archwilio'u syniadau personol a gweld na fydd pawb o reidrwydd yn cytuno. Bydd angen rhoi rhaff neu ryw beth arall ar draws y llawr ar gyfer cynnal gweithgaredd Cytuno / Anghytuno.

Ar ôl i'r plant edrych ar y ffotograffau, llenwi Taflen Gweithgaredd B a chwblhau'r holiadur, darllenwch y datganiad canlynol a gofynnwch i'r plant sefyll ar un ochr i'r llinell os ydyn nhw'n cytuno â'r gosodiad ac ar yr ochr arall os ydyn nhw'n anghytuno. Os nad ydynt yn sicr gallant sefyll ar y llinell.

Dylai plant gael hawl i weithio.

A yw hi'n bosib i blant ailysgrifennu Erthygl 32 er mwyn ceisio cwmpasu sefyllfa pob plentyn yn y byd? Awgrymir y dull hwn:

MEDDWL *Rhowch amser myfyrio o FUNUD i'r plant sgrïblo syniadau.*

PÂR *Gofynnwch i'r plant weithio fesul pâr i drafod eu syniadau a dechrau drafftio'u fersiwn ddiwygiedig o'r erthygl – TRI MUNUD*

RHANNU *Gosodwch setiau o barau gyda'i gilydd – gofynnwch iddynt rannu eu syniadau mewn grwpiau o bedwar er mwyn ceisio cyflwyno Erthygl 32 ar ei newydd wedd rhyngddynt - PUM MUNUD.*

Nodiadau i athrawon

Dylai'r ffotograffau fod wedi dangos nad yw Erthygl 32 yn uniongyrchol. Dylai'r gweithgaredd hwn godi llawer o gwestiynau a dangos mor anodd yw hi i lunio hawl fydeang sy'n berthnasol i bawb ymhob man.

Erthygl 32, Gwaith

Camau. (parhad)

Cam 5	<p>Crynhoi: Gan ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol, cymerwch awgrymiadau oddi wrth bob grŵp a cheiswch gytuno ar eiriad newydd ar gyfer Erthygl 32. Anfonwch y gwelliant at y Comisiynydd Plant a'r Ddraig Ffynti er mwyn gofyn iddynt ei ystyried ac ymateb.</p>
Cam 6	<p>Gofynnwch i'r plant ddychwelyd i'w grwpiau gwreiddiol. Dylent drafod pa newidiadau sydd angen eu gwneud er mwyn sicrhau y rhoddir eu Herthygl ar waith ledled y byd.</p>
Cam 7	<p>Crynhoi. Gofynnwch i bob grŵp wneud UN pwynt am eu trafodaeth wrth y dosbarth cyfan.</p> <p>Gwaith dilynol Mae [Briciau yn y Wall] yn weithgaredd ardderchog er mwyn gadael i blant archwilio rhwystrau i CCUHP a meddwl am yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn newid.</p>

Nodiadau i athrawon

Mae'r **PROTOCOL DEWISOL AR GYNNWYS PLANT MEWN GWRTHDARO ARFOG** yn cynnwys 13 Erthygl bellach sy'n berthnasol i blant a rhyfel. Gellir gweld y Protocol (yn Saesneg yn unig) yma: <http://www2.ohchr.org/english/law/crc-conflict.htm>

Erthygl 31 - Chwarae

Pwrpas.	Archwilio'r cysyniad o chwarae yng nghyd-destun Erthygl 31 CCUHP. <i>Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.</i>	Camau.	
Ystod Oedran	8 – 18	Cam 1	Tafluniwch Erthygl 31 ar y bwrdd gwyn. <i>Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.</i>
Amseru	30 – 40 munud	Cam 2	Gofynnwch i'r plant edrych ar y lluniau a phenderfynu pa luniau sy'n dangos eu dehongliad hwy o chwarae. Gan ddefnyddio'r peniau dylent naill ai dicio neu roi croes ger pob llun.
Adnoddau	Chwarae [ffotograffau: 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 19, 21] Pob ffotograff wedi'i fowntio ar ddarn o bapur. Peniau.	Cam 3	A oes yno luniau â thic a chroes wrtho? Trafodwch y lluniau hyn er mwyn gweld ble mae'r anghytundeb a phaham.
Grwpio	Plant yn gweithio mewn grwpiau ac fel dosbarth cyfan.	Cam 4	Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau o 3 i drafod y cwestiwn canlynol: A yw gweithgareddau chwarae a hamdden yr un peth? Ai oedolion ddylai fod yn trefnu gweithgareddau chwarae / hamdden ar gyfer plant?
		Cam 5	Arweiniwch drafodaeth ddosbarth yn seiliedig ar y cwestiynau hyn gan ddewis dau grŵp i gyflwyno'u syniadau.
		Cam 6	Gellir gwneud hyn fel gweithgaredd dilynol neu fel gweithgaredd llyfr nodiadau. <i>Pe byddech chi'n rhydd i gynllunio gweithgareddau chwarae / hamdden ar gyfer plant eich oedran chi, beth fyddech chi'n ei gynllunio?</i>

Nodiadau Athrawon

Chwarae yw'r gwrthwyneb llwyr i waith ac fe'i cysylltir gan oedolion â hwyl, pleser a rhyddid. Mae'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn dehongli chwarae fel gwaith plant. Mae chwarae yn ysgwyddo baich bwriadus iawn am fod plant yn cael eu gweld yn dysgu trwy chwarae ac, o ganlyniad, fe'i gwelir fel agwedd hanfodol o blentynod. Mae Erthygl 31 yn gwneud chwarae yn hawl; daw yn orfodol ac mae'n awgrymu fod y rheiny nad ydynt yn chwarae rywsut 'dan fygythiad'. Yn y gweithgaredd hwn canolbwyntir ar y chwarae sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol, chwarae a gysylltir â hamdden a rhyddid i ddewis.

Nodiadau Athrawon

Gallai'r plant lunio cynnig i'w gyflwyno i'r Comisiynydd Plant, y Ddraig Ffynici neu eu Cyngor Ysgol.

Dadelfennu Ymgyrchoedd

Pwrpas.	Camau.
Deall y peryglon y gallai plant ym Mhrydain ac ar draws y byd eu hwynebu wrth ddadelfennu ymgyrchoedd poster.	<p>Cam 1</p> <p>Dywedwch wrth y plant mai corff anllywodraethol (NGO - Non-government Organization) sydd wedi cynhyrchu pob un o'u poster er mwyn tynnu sylw at fygythiad y gallai plant ledled y byd fod yn ei wynebu. Gofynnwch iddynt lynu eu poster ar y darn papur mawr gyda 'Blu-tac'.</p>
Ystod Oedran	<p>Cam 2</p> <p>Trefnwch y plant ar hap yn grwpiau o 4. Rhwch UN poster i bob grŵp. Rhwch gopi o Erthyglau CCUHP 13, 17, 19, 23, 24, 25, 27, 32, 33, 34, 36 iddynt. Pa erthygl y mae eu poster hwy yn ceisio cyfeirio ato? (Fe allai fod yn fwy nag un).</p>
Amseru	<p>Cam 3</p> <p>Bydd y plant yn ystyried pa mor llwyddiannus fu eu poster wrth herio'r diffyg hawliau trwy ddadelfennu'r poster. Gofynnwch iddynt ystyried:</p> <p>Pa luniau, darluniau neu ddiagramau a gynhwyswyd? Beth yw eu pwrpas?</p>
Adnoddau	<p>Cam 4</p> <p>Dywedwch wrth y plant fod poster ymgyrchu fel hyn yn defnyddio iaith darbwylllo i geisio argyhoeddi darllenwyr.</p> <p>Nodweddir iaith darbwylllo fel arfer gan ferfau gweithredol ac adferfau.</p> <p>A oes berf weithredol neu adferf yn eich poster chi?</p>
Grwpio	

Nodiadau i athrawon

Mae dau Protocol Dewisol yr hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru i athrawon fod yn ymwybodol ohonynt, yn ymwneud â gwrthdaro arfog ac ecsbloetio plant yn rhywiol. Gellir gweld manylion am y ddau brotocol ar y wefan hon: <http://www.childrensrights.wales.org.uk/optional-protocols.aspx>

Dadelfennu Ymgyrchoedd

Camau. (parhad)

Cam 5	<p>Dywedwch wrth y plant y defnyddir ansoddeiriau i wneud disgrifiadau yn fwy grymus.</p> <p>Pa enwau ac ansoddeiriau a ddefnyddir yn eich poster chi?</p>
Cam 6	<p>Gofynnwch i'r plant benderfynu at bwy yr anelwyd eu poster?</p> <p>Pwy yw cynulleidfa'r poster?</p>
Cam 7	<p>Gofynnwch i bob grŵp roi marc allan o 10 i'w poster ar sail ei rym i berswadio. Yna gofynnwch i bob grŵp gyflwyno'u poster i weddill y dosbarth. Dylent ddarllen pob un o'r Erthyglau y cyfeirir atynt, yn eu tyb hwy, gan y poster ac esbonio pam. Dylent adnabod sut mae'r neges weledol a'r geiriau yn gweithio gyda'i gilydd i greu neges y poster ar gyfer y gynulleidfa y bwriadwyd ef ar ei chyfer.</p>
Cam 8	<p>Ydy'r plant yn credu y bydd y posteri yn llwyddiannus wrth helpu rhwystro'r pethau y maent yn ymgyrchu yn eu herbyn? Cynhaliwch bleidlais dosbarth ar bob poster.</p>

Gweithgaredd Llyfr Nodiadau:

A yw'r plant a'r bobl ifanc yn credu y dylai asiantaethau yn y byd lleiafrifol (20% o boblogaeth y byd: Ewrop, Gogledd America ac Awstralia) fod yn ymgyrchu ynghylch pethau sy'n digwydd i blant yn y Mwyafrif Deheuol (poster UNICEF) (80% o bobl y byd: Asia, Affrica, De America).

Creu Arddangosfa

Pwrpas.		Camau.		
	Y plant a'r bobl ifanc i greu arddangosfa o'r ffotograffau i'w harddangos yn yr ysgol neu ganolfan gymunedol er mwyn eraill eu gweld.	Cam 1	Esboniwch i'r plant y byddan nhw'n greu arddangosfa gan ddefnyddio ffotograffau'r pecyn fel y gall eraill ddeall CCUHP a'r hyn y mae'n ei olygu i blant ar draws y byd.	Nodiadau i athrawon
Ystod Oedran	8 – 18			
Amseru	Bydd hyn yn dibynnu'n llwyr ar yr athrawon ac oedran y plant sy'n cymryd rhan. Mae'n annhebygol o gymryd llai o amser na dwy awr.		Rhowch holl luniau ac erthyglau CCUHP ar gael i'r plant. Esboniwch y dasg - dewis lluniau ar gyfer arddangosfa ac ysgrifennu capsionau neu wneud cysylltiadau fel y mynnant i ddangos i eraill ystyr CCUHP i blant ledled y byd. Pwysleiswch fod ganddynt hawl i holi cwestiynau, gwneud datganiadau, rhoi swigod siarad, cymharu a gwrthgyferbynnu - unrhyw ddull y dewisant i gyfleu eu neges.	<i>Chi fydd yn gwybod orau sut i drefnu'r plant a phobl ifanc er mwyn cwblhau'r dasg hon. Yn ddefnyddio bydd modd iddynt drefnu'u hunain yn grwpiau gweithio er mwyn penderfynu sut i fynd ati. Mae'n bwysig fod yr arddangosfa derfynol yn adlewyrchu eu syniadau a'u barn nhw a'i fod yn ymarfer go iawn mewn creu arddangosfa y bydd pobl eraill yn ei gweld ac yn gwneud sylwadau yn ei chylch. Tafenni Gweithgaredd ar gyfer eu llungopio</i>
Adnoddau	Yr holl [ffotograffau]. Set o [Erthyglau CCUHP] mewn iaith plentyn-ganolog.			
Grwpio	Plant i weithio mewn parau, grwpiau bach neu fesul dosbarth.			

Taflen Gweithgaredd A

Pa oed sydd angen i mi fod er mwyn...

Amcangyfrif - Rhowch gynnig ar ddyfalu faint ddylai eich oed fod yn ôl y gyfraith yn y DU i wneud y canlynol:

Dyfalwch pryd y mae hawl gan rywun...	
Priodi	
Bod yn gyfrifol am weithred droseddol	
Gadael ysgol	
Rhoi caniatâd i gael llawdriniaeth	
Gweithio	
Cytuno i gael rhyw	
Cael mynediad i ddulliau atal cenhedlu	

Fe fydd yr atebion cywir gan eich athro.

Taflen Gweithgaredd B

Gweithgaredd Llyfr Nodiadau

Cwestiynau i'w hystyried:

Pam y mae gan wahanol wledydd yn Ewrop oedrannau gwahanol ar gyfer oedran cyfrifoldeb troseddol?

Beth yn eich barn chi ddylai'r oedran fod? Pam?

Pa oedran yn eich barn chi ddylai pob un o'r rhain fod? Pam?

Taflen Gweithgaredd C

Dadansoddi Ffotograffau

Rhestr ffotograffau	Drwg i iechyd plant	Drwg i addysg plant	Nid yw'r gwaith hwn yn ddiogel	Nid yw plant yn cael eu talu am y gwaith hwn	Mae plant yn cael eu talu'n deg am y gwaith hwn
8					
9					
11					
12					
13					
14					
15					
25					

Rhywbeth wnaeth beri i mi synnu yn y lluniau oedd...

Rhywbeth oedd yn ddiddorol i mi yn y lluniau oedd...

Rhywbeth yr hoffwn ddarganfod mwy amdano yw...

Taflen Gweithgaredd Ch

Holiadur Gwaith

1) Wyt ti'n gweithio?

Ydw / Nac ydw

Os wyt ti, ateba'r cwestiwn nesaf.

Os nac wyt ti, symuda'n syth at gwestiwn 2

1a) Pa fath o waith wyt ti'n ei wneud?

1b) Faint o oriau bob wythnos wyt ti'n gweithio?

1c) Wyt ti'n cael dy dalu am dy waith?

1ch) Os wyt ti'n cael dy dalu, wyt ti'n cael cadw'r arian a enillaist ti?

2) A hoffet ti weithio?

Hoffwn / Na hoffwn

2a) A fyddet ti'n disgwyl cael dy dalu am weithio, a chael cadw'r arian i ti dy hun?

Byddwn / Na fyddwn

3) Pam wyt ti'n meddwl fod plant a phobl ifanc yr un oed â thi yn gweithio? Ceisia feddwl am fwy nag un rheswm.

4) Pa fanteision ac anfanteision sydd yna i blant a phobl ifanc weithio yn ein cymdeithas?

5) Pe gallet ti ddewis pa fath o waith yr hoffet ti ei wneud – beth fyddai?

6) Sut wyt ti / fyddet ti'n gwario'r arian a enillwyd o weithio?

